# DANIEL A'R FFAU LLEWOD



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Wythnos diwethaf, roeddem wedi astudio'r wers am Daniel a'i ffrindiau yn sefyll i fyny dros Dduw. Mae'r wers yr wythnos yma yn edrych ar Daniel yn ffau'r llewod. Mae'r testun i'w gael yn Daniel 6. Fe wnawn ni ganolbwyntio ar y prif bwyntiau yma:-

- Weithiau bydd pobl yn ceisio ein twyllo oherwydd ein bod yn caru Duw.
- Dylwn fod yn ffyddlon mewn gweddi.
- Mae Duw yn medru gofalu amdanom bob amser.

## Cynllun y wers

Atgoffwch eich plentyn am y wers wythnos diwethaf. Siaradwch am fel oedd Daniel a'i ffrindiau yn sefyll i fyny dros Dduw. Eglurwch fod Duw wedi parhau i fod gyda Daniel wrth iddo fyw ei fywyd. Atgoffwch eich plentyn na fydd Duw byth yn gadael neu'n anghofio Ei blant.

Eglurwch i'ch plentyn bod gweddïo yn siarad gyda Duw. Trafodwch bobl maen nhw'n mwynhau siarad gyda. Meddyliwch am os ydych yn caru rhywun rydych eisiau siarad gyda nhw. Pwyntiwch allan bod Daniel yn caru Duw, felly roedd eisiau siarad gydag Ef.

Siaradwch am sut oedd y dynion drwg yn genfigennus o Daniel ac felly roeddynt wedi twyllo'r brenin i wneud rheol fel nad oedd Daniel yn cael gweddïo i Dduw. Gofynnwch i'ch plentyn os byddai'n hapus petai rywun wedi dweud wrtho nad oedd yn cael siarad gyda chi neu unrhyw roedd yn caru byth eto. Atgoffwch y plentyn bod Duw yn fodlon iawn pan rydym yn gweddïo, a phenderfynodd Daniel ufuddhau i Dduw a dim i ddyn. Darllenwch Actiau 5:29 gyda'ch gilydd ac, os yw'n bosib rhowch e ar gof. Efallai gallwch ddechrau dysgu Gweddi'r Arglwydd fel esiampl o sut i weddïo.

Siaradwch am ffyrdd gallwn weddïo. Eglurwch am sut medrwn weddïo'n uchel neu yn ein pen. Pwyntiwch allan bod Duw yn medru clywed ein meddyliau. Gallwch chwarae gêm o 'Gwelaf i' gyda'ch plentyn. Wrth i chi un ai ddyfalu (neu fethu dyfalu) gwahanol eitemau, atgoffwch y plentyn bod Duw yn gwybod ein meddyliau ac yn medru clywed ein gweddïau hyd yn oed os ydym yn dweud nhw yn ein pen. Does dim rhaid i Dduw ddyfalu beth rydym yn meddwl. Siaradwch am fel mae rhai pobl yn ysgrifennu neu yn tynnu llun gweddïau.

Siaradwch am fel oedd dynion drwg eisiau twyllo Daniel a'i wneud i ddewis rhwng ufuddhau dyn neu ufuddhau Duw. Atgoffwch y plentyn os oes rhaid i ni ddewis rhwng ufuddhau Duw neu dyn, dylwn bob amser ufuddhau Duw.

Os yw'n bosib, ewch a'ch plentyn i bwll hwyaid neu sŵ anifeiliaid anwes. Gallwch un ai fynd a llysiau bach wedi torri fyny, ceirch a.y.b. i'r pwll neu prynwch fwyd yn y sŵ anifeiliaid anwes. (Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y rheolau lleol ac yn osgoi rhoi unrhyw fwyd i'r anifeiliaid byddai'n eu niweidio.) Wrth i chi fwydo'r adar, pysgod neu anifeiliaid eraill, dywedwch mor eiddgar ydynt i fwyta'r bwyd. Dywedwch fod anifeiliaid newynog yn bwyta'r bwyd maent yn darganfod. Siaradwch am bobl yn bwyta pan maent yn newynog.

Gofynnwch i'r plentyn os byddai'n gwrthod bwyta ei hoff fwyd os oedd yn newynog. Atgoffwch y plentyn bod y llewod yn newynog, ond bod Duw wedi cau eu cegau a'u gwneud i beidio bwyta.

Ystyriwch sut oedd Duw wedi achub Daniel o'r llewod a sut daeth yr Iesu i'n hachub o'n pechodau.

Molwch Dduw gyda'ch gilydd bod dim byd tu allan o'i reolaeth. Gweddiwch gyda'ch plentyn a diolchwch i Dduw ei fod mewn rheolaeth. Gofynnwch Iddo am gymorth i fod yn ffyddlon i Dduw bob amser yn hytrach na bod yn ffyddlon i ddyn.

© 2025 truewaykids.com



Y peth cyntaf y bore wedyn, ruthrodd i ffau’r llewod. Gweiddodd “Daniel, wyt ti yna?”

Atebodd Daniel,”O frenin, byw am byth! Danfonodd fy Nuw angel, a chaeodd gegau’r llewod.”

Roedd Brenin Darius yn hapus. Roedd Daniel yn ddiogel. Roedd Duw wedi ei amddiffyn.






Roedd brenin Newydd ym Mabilon o’r enw Darius. Roedd yn hoffi Daniel oherwydd ei fod yn weithiwr caled ac roedd yn ddyn gonest. Rhoddodd Darius Daniel mewn gofal o’r holl wlad.

Roedd gweithwyr eraill y brenin yn genfigennus iawn o Daniel. Roeddynt eisiau cael Daniel mewn i drwbl.



Fe dwyllon nhw Darius i wneud rheol, fel bod y bobl dim ond yn cael gweddïo iddo ef. Os oedd unrhyw un yn gweddïo i rywun arall byddent yn cael eu taflu i’r llewod.

Roedd Daniel yn caru Duw ac yn mwynhau siarad gydag Ef bob dydd. Roedd yn ffyddlon i reolau’r brenin i gyd ond ni allai bod yn ufudd i’r un yma.

Roedd yn caru Duw gormod.





Pan welodd y dynion Daniel yn gweddïo, dywedon nhw wrth y brenin yn syth a gwneud iddo gosbi Daniel.

Roedd Brenin Darius yn drist iawn.

Rhoddodd Brenin Darius y gorchymyn i daflu Daniel i’r llewod ond dywedodd, “Gobeithio bydd y Duw rwyt yn gweini ac yn gweddïo i dy achub!”

Ni fedrai’r Brenin Darius fwyta na chysgu drwy’r nos gan ei fod yn poeni cymaint.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Llewod yn cysgu



Mae hwn yn gêm bydd eich plant yn debygol o wybod yn barod. Bydd eisiau i bawb, ond am un neu ddau heliwr, orwedd ar y llawr fel petai nhw'n cysgu. Unwaith mae'r gêm yn dechrau dydi'r llewod ddim yn cael symud.

Bydd yr heliwr yn cerdded o gwmpas yr ystafell, yn ceisio gweld llew sy'n symud. Gall yr helwyr ddweud jôc, gwneud synau neu symudiadau doniol i wneud i'r llew chwerthin. Os yw'r llew yn symud mae hefyd yn bod yn heliwr.



## Rhuo fel llew

Un person yn wynebu'r wal. Pawb arall i sefyll rhywle yn yr ystafell tu ôl iddo.

Mae'r bobl tu ôl yn cymryd tro i ruo fel llew. Rhaid i'r person sy'n wynebu'r wal geisio dyfalu pwy sy'n gwneud y rhuo.

## Bwcedi Gweddi



Trowch gynhwysydd mawr mewn i fwced gweddi. Gadewch i'r plentyn dynnu llun rhywun neu rywbeth maent eisiau gweddïo amdano ar ddarn o bapur sgwâr. Ar ôl iddynt dynnu llun y person neu'r peth maent eisiau gweddïo amdano, dywedwch wrthynt am ei roi yn y bwced gweddi.

Ceisiwch roi amser tair gwaith y dydd pan ddylai'r plentyn ddewis eitem i weddïo amdano o'r bwced. Ffordd hawdd byddai, brecwast, amser pryd bwyd a cyn gwely.

I gael syniadau gweddi fwy creadigol ewch i ymweld ein blog post:

https://truewaykids.com/5-creative-prayer-ideas-for-preschoolers/

(Saesneg)

© 2025 truewaykids.com


# Trefnwch y gweithgareddau

Torrwch a gludwch y lluniau yn y llefydd cywir


## Bore

## Prynhawn


## Nos














© 2025 truewaykids.com

# Popeth am fy nydd

## Dwi’n deffro am:







☐ o’r gloch

## Dwi’n bwyta cinio am:







☐ o’r gloch

## Dwi’n ‘molchi am:







☐ o’r gloch

## Dwi’n mynd i’r gwely am:







☐ o’r gloch

© 2025 truewaykids.com

# Llew



## Lliwiwch bob llythyren L

K L N H I P


I R E L K D

H M L S A h I

F l j k L G N

© 2025 truewaykids.com

# Amlinellwch a lliwiwch y llew



© 2025 truewaykids.com

# Mwgwd Llew




## Pethau byddwch angen:

- tudalen templed wedi argraffu ar gerdyn gwyn
- stribedi o bapur oren a melyn
- siswrn
- glud
- pensil lliwio
- un pren lolipop

https://youtu.be/Xw4SJiF0mXU

## Beth i'w wneud:



Torrwch allan hwyneb y llew o'r tudalen templed. Oedolyn: torrwch allan dyllau i'r llygaid.



Lliwiwch y llew.




Gludwch stribedi o'r papur oren a melyn rownd y tu allan, ar gefn y templed i wneud y mwng.


Gludwch y pren lolipop ymlaen fel handlen.

© 2025 truewaykids.com

# Templed Mwgwd Llew




© 2025 truewaykids.com





https://youtu.be/6e7BqBg3QGE

1) Lliwiwch y dudalen. 2)Torrwch o gwmpas y ffenest. 3) gludwch y fflapiau o dan y sil ffenest.


© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com




© 2025 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Daniel Song

https://youtu.be/j0R0VaRYOTI

## Shut the lion's Jaw

https://youtu.be/1_d_eLGamLY

## God Answers Prayer

https://youtu.be/ABoyVKTPY5c



# Amser Gweddi

Gofynnwch i Dduw eich helpu i fod yn esiampl dda i eraill. Diolchwch i Dduw eich bod yn medru gweddïo Iddo unrhyw adeg o'r dydd. Gofynnwch i Dduw eich helpu i fod yn ufudd Iddo.

# Wythnos Nesaf:

Jona

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2025 truewaykids.com